GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 1 (CYLCHFAN KINGSLAND), CAERGYBI I GYFFORDD 6 (TYRPEG NANT), YNYS MÔN) (GWAHARDD TRAFFIG DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi a Chyffordd 6 (Tyrpeg Nant), Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob traffig rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A55 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 16 Mehefin 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 05:00 o'r gloch) o 16 Mehefin tan 19 Gorffennaf 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Ni fydd gwaith yn cael ei wneud yn yr holl leoliadau a restrir ar yr un pryd ac ni fydd y gerbytffordd tua'r dwyrain a'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau ar yr un pryd.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 1 (KINGSLAND ROUNDABOUT), HOLYHEAD TO JUNCTION 6 (NANT TURNPIKE), ANGLESEY) (TEMPORARY PROHIBITION OF TRAFFIC) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 1 (Kingsland Roundabout), Holyhead and Junction 6 (Nant Turnpike), Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all traffic from proceeding on the lengths of the A55 trunk road specified in the Schedule to this Notice. The alternative route is described therein.

The Order comes into force on 16 June 2021. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (19:00 – 05:00 hours) from 16 June – 19 July 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Works will not be undertaken at all listed locations at the same time and the eastbound and westbound carriageways will not be closed simultaneously.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Kingsland, Caergybi (Cyffordd 1) hyd at bwynt 280 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 1 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 2.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 270 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) hyd at bwynt 330 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 300 metr i'r gorllewin o Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog) hyd at bwynt 280 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at bwynt 270 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 5.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 370 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant) hyd at bwynt 270 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Treban), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 6.

Y llwybr arall

Y llwybr arall pan fydd y ffordd ar gau fel y nodir uchod fydd mynd ar yr A5 tua'r dwyrain neu tua'r gorllewin, fel y bo'n briodol, i ymuno â'r A55 wrth y gyffordd nesaf sydd ar gael.

SCHEDULE

The length of the trunk road that extends from its junction with the eastern side of Kingsland Roundabout, Holyhead (Junction 1) to a point 280 metres east of Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange), including the eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 1 and the eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 2.

The length of the trunk road that extends from a point 270 metres west of Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange) to a point 330 metres east of Junction 3 (Pencaledog Interchange), including the eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 2 and the eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 3.

The length of the trunk road that extends from a point 300 metres west of Junction 3 (Pencaledog Interchange) to a point 280 metres east of Junction 4 (Dalar Hir Interchange), including the eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 3 and the eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 4.

The length of the trunk road that extends from a point 320 metres west of Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to a point 270 metres east of Junction 5 (Treban Interchange), including the eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 4 and the eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 5.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 370 metres east of Junction 6 (Nant Turnpike) to a point 270 metres west of Junction 5 (Treban Interchange), including the westbound entry slip road at Junction 6.

Alternative route

The alternative route during all the above closures will be via the eastbound or westbound A5, as appropriate, to join the A55 at the next available junction.